

PARRY, ROBERT ('Robyn Ddu Eryri'; 1804 - 1892), bardd

**Enw:** Robert Parry

**Ffugenw:** Robyn Ddu Eryri

**Dyddiad geni:** 1804

**Dyddiad marw:** 1892

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** bardd

**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth

**Awdur:** Edward Morgan Humphreys

Ganwyd yng Nghaernarfon, 7 Chwefror 1804, ei dad yn deiliwr, yn feddyg esgyrn, ac yn dipyn o brydydd. Bu yn ysgol [Evan Richardson](#) am ysbaid, a chafodd [Peter Bailey Williams](#) yn noddwr cynnar, ac [Arthur Jones](#), Bangor, yn noddwr diweddarach. Eithr ni afaelodd o ddifrif mewn unrhyw alwedigaeth; dywed [John Davies](#) ('Gwyneddion') amdano, ' gan nad oedd wedi dysgu crefft ac nad oedd ganddo foddion gweledig at ei gynhaliaeth, aeth o amgylch y wlad i glera.' Bu'n cadw ysgol mewn gwahanol fannau, yn darlithio ac yn pregethu, yn siarad dros y Mormoniaid, yn glerc mewn swyddfa cyfreithiwr, ac, o 1850 hyd tua 1852, yn olygydd *Y Wawr*, a gyhoeddodd yng Nghaerdydd. Bu yn America yn darlithio, a daeth i gryn amlygrwydd yng Nghymru fel areithiwr ar ddirwest. Amheuai rhai ei gywirdeb, ond barn ' [Gwyneddion](#), ' a oedd yn ei adnabod yn dda, oedd iddo gael cryn lawer o gam, ac mai meddalwch oedd ei fai mwyaf. Ysgrifennodd lawer o brydyddiaeth, a chyhoeddodd [Hugh Humphreys](#), Caernarfon, gyfrol o'i waith, *Teithiau a Barddoniaeth Robyn Ddu*, yn 1857. Ei hunangofiant yn y gyfrol honno, er mor wasgarog ydyw, yw'r peth gorau yn y llyfr. Bu'n cynorthwyo [Arthur Jones](#) gyda'i gyfieithiad o *The Life of Christ* (Fletcher): dywed ' [Gwyneddion](#) ' mai ei eiddo ef yw y rhan fwyaf o'r cyfieithiad. Bu farw yn 88 mlwydd oed, yn Llwydlo, 4 Tachwedd 1892, a chladdwyd ef ym mynwent Ludford. Y mae llawysgrifau ganddo yn llyfrgell Coleg y Gogledd - Bangor MSS. 636, 752-5, 978, 1286, 1549, 3839, 4870, 5277.

## Awdur

Edward Morgan Humphreys, (1882 - 1955)

## Ffynonellau

*Teithiau a Barddoniaeth Robyn Ddu Eryri* (Caernarfon, 1857)

*Y Geninen* (G y l Dewi), 1893, 32, 46

*Cymru (O.M.E.)*, iii, 257

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Robert Parry \(Robyn Ddu Eryri\)](#)

# Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q28361334](https://www.wikidata.org/wiki/Q28361334)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

